Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Little Inspirations Llantrisant**

**Little Inspirations**
**Parc Busnes Llantrisant**
**Llantrisant**
**Pont-y-clun**
**CF72 8YW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Little Inspirations Llantrisant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Little Inspirations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 104 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Gorffennaf 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae gan y plant lais cryf ac maent yn hyderus yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn teimlo fel petaent yn cael eu gwerthfawrogi, gan wybod bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu ac yn datblygu sgiliau annibyniaeth da.

Mae bron pob aelod o'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol, yn dyner ac yn ofalgar ac maent yn diwallu anghenion bron pob plentyn.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel; fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhelliad mewn perthynas â mater diogelwch tân.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol wrth redeg y lleoliad. Mae'r broses staffio yn drefnus a chaiff y cymarebau staffio eu bodloni. Fodd bynnag, mae'r broses cadw cofnodion yn faes i'w wella i'r lleoliad. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda.

## Llesiant

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus yn eu hamgylchedd chwarae wrth iddynt ddewis teganau ac adnoddau yn hawdd. Mae'r plant yn teimlo fel petaent yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, daeth y plant nad oeddent yn barod i eistedd gydag eraill yn ystod amser cinio i eistedd ac i fwyta yn nes ymlaen. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i fynd at y staff. Maent yn dangos i'r staff beth sydd ei angen arnynt ac yn hapus i rannu eu llwyddiannau personol. Er enghraifft, dywedodd y plant wrth y staff bod eu bwyd "*All gone*" ac roeddent yn hapus i gael rhagor o fwyd. Dywedodd rhai o'r plant wrth y staff nad oeddent am gael rhagor o fwyd yn hyderus. Roedd rhai o'r plant yn cael eu llethu gan amser cinio, ac felly roeddent yn mynd i chwarae am gyfnod byr cyn dod yn eu holau i fwyta eu pwdin.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff y plant eu cysuro gan y staff pan fyddant wedi blino. Er enghraifft, cafodd y plant iau eu suo i gysgu gan y staff ar ôl amser cinio, ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd i gysgu fesul un. Gwrandawodd y staff ar y plant hynny a benderfynodd nad oeddent am gysgu. Roedd y plant iau yn teimlo'n hapus ac roeddent yn gwenu wrth i'r staff ganu iddynt. Maent yn teimlo bod eu hanghenion a'u hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, rhoddodd y plant stori'r Gryffalo i'r staff er mwyn iddynt ei darllen yn dawel.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda ac yn dilyn rheolau. Gwnaethant wrando ar y staff a ddywedodd wrthynt i dacluso, a gwrando ar anogaeth y staff i fod yn garedig tuag at ei gilydd pan oeddent am gael yr un adnodd crefft. Mae'r plant yn cael budd mawr o ganmoliaeth. Roedd y plant yn gwenu wrth gael eu canmol am wrando ar y cyfarwyddiadau a roddwyd iddynt. Mae'r plant yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd. Gwnaethant helpu'r plant eraill drwy rannu'r bwydydd yn y bowlenni yn ystod amser cinio, gan ddweud *"here you go"*. Mae gan y plant gydberthynas agos â'r staff. Roeddent yn mynd at y staff am faldod ac i gael sicrwydd, yn enwedig pan oeddent wedi blino.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau chwarae â'r deinosoriaid, gan wneud synau rhuo i ddychryn y staff sy'n gwneud iddynt chwerthin yn uchel. Mae'r plant iau yn mwynhau chwarae â'r blociau adeiladu yn y babell; dringo a mynd lawr y llithren; a chwarae ag adnoddau'r chwarae rôl cegin gyda'r staff. Roedd y plant yn canolbwyntio am gryn amser wrth baentio gyda gliter a glud i greu eu cardiau Nadolig. Mae'r plant yn mwynhau profiadau chwarae yn yr awyr agored. Maent yn mwynhau rhedeg o gwmpas, reidio beiciau, dringo a chwarae â thryciau yn yr ardal hambwrdd twff.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da. Mae'r plant iau yn gallu defnyddio'r dodrefn i godi ar eu traed yn annibynnol ac yn defnyddio ffyrc a llwyau i fwyta eu

bwyd. Helpodd y plant eu hunain i fwyd megis caserol a thatws o'r bowlenni ac arllwysodd rai y dŵr a roddwyd yng nghanol y bwrdd tra bod eraill wedi cael help gan y staff.

## Gofal a Datblygiad

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac felly nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae bron pob aelod o'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethant ddilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn ystod amser cinio. Mae'r bwyd a ddarperir i'r plant yn iach ac yn gytbwys ac roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn cael cynnig rhagor o fwyd unwaith iddynt orffen eu prydau. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cydymffurfio â'r cymarebau bob amser, ac roeddent yn gweithio'n dda i sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth yn ystod egwylion y staff. Roedd y plant yn cael eu goruchwylio'n llawn bob amser.

Mae rhyngweithio'r staff yn gadarnhaol. Maent yn dyner a gofalgar tuag at y plant, gan roi maldod i roi sicrwydd iddynt a diwallu eu hanghenion personol. Er enghraifft, rhoddodd y staff dawelyddion, blancedi personol a thedis i'r plant pan oedd eu hangen arnynt. Mae'r staff yn dangos esiampl dda. Maent yn dangos i'r plant iau sut i ddefnyddio ffyrc ac yn eu hannog i'w defnyddio. Gwnaeth y staff annog y plant i ddefnyddio ‘dwylo caredig’ pan oeddent yn ceisio defnyddio'r un potyn gliter wrth greu eu cardiau Nadolig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn hyrwyddo hunan-barch y plant. Maent yn canmol y plant am dacluso'r deinosoriaid a dywedwyd *“Good job!*” wrthynt pan oeddent yn bwydo eu hunain gyda fforc a *“Da iawn!”* am ymuno yn y canu. Mae'r staff yn annog rhyngweithiadau cymdeithasol yn dda. Maent yn rhyngweithio'n hyfryd â'r plant wrth iddynt eistedd wrth eu byrddau yn ystod amser cinio, gan sgwrsio â nhw am eu teuluoedd.

Mae bron pob aelod o'r staff yn diwallu anghenion y plant. Gwnaethant ganu hwiangerddi a darllen stori'r Gryffalo i'r plant, gan ofyn cwestiynau ac annog y plant i adnabod lliwiau ac enwau ac i ailadrodd ymadroddion o'r llyfr. Gwnaeth aelod o'r staff hyrwyddo, parchu a diwallu anghenion ieithyddol y plant sy'n siarad Cymraeg drwy ryngweithio â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg a chwarae ‘Beth sydd yn y bag?’ a ‘Mr Crocodeil’ gyda'r plant hynny.

## Yr Amgylchedd

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac felly nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod pob rhan o'r safle, dan do ac yn yr awyr agored, yn ddiogel. Ni chaiff pobl heb awdurdod fynd i mewn i'r lleoliad ac mae'r arweinwyr yn gwirio bathodynnau adnabod. Fodd bynnag, roedd dolen yr allanfa dân wedi torri ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r rheini sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud trefniadau i atgyweirio'r ddolen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac felly nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg ar hyn o bryd ac yn bodloni'r gofynion rheoliadol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gymhareb staffio a phlant yn ddigonol ac y caiff anghenion y plant eu diwallu. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion yn dangos lleoliad y staff mewn ardal o'r feithrinfa bob amser. Roedd yr holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae trefniadau da ar waith i oruchwylio cymarebau staffio. Cadarnhaodd y staff y caiff cymarebau staff a phlant eu bodloni bob amser a bod egwylion y staff yn cael eu trefnu, er nad ydynt yn cael eu cofnodi'n effeithlon bob amser. Mae hyn yn faes i'w wella i'r lleoliad a bydd yn cael ei ystyried eto yn ystod arolygiad nesaf y lleoliad. Ceir ethos gwaith da yn y lleoliad. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn rhan o dîm da o staff.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n dda iawn. Mae'r rhieni'n teimlo'n hyderus bod eu plant yn ddiogel ac yn hapus iawn ac mae ganddynt gydberthnasau cryf â'r staff sy'n eu hadnabod yn dda. Cânt adborth ar y gofal a gaiff eu plant yn ddyddiol a thrwy adroddiadau a gaiff eu hanfon atynt drwy we-ffurflen ar-lein. Mae'r rhieni'n teimlo ei bod yn hawdd iawn mynd at y staff a'u bod yn gyfeillgar ac yn adnabod eu plant yn dda.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Sicrhau y caiff y drws tân sy'n arwain i'r ardal awyr agored ei atgyweirio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Dydy’r person cyfrifol ddim wedi sicrhau bod cofnodion staffio yn rhannau o’r feithrinfa yn glir, a dydy egwyliau staff ddim yn cael eu cofnodi pob tro yn gyson. | Newydd |
| 27 | Weithiau nid yw'r cymarebau staff i blant yn cael eu cynnal yn unol ag argymhellion safonau gofynnol cenedlaethol. Nid oedd y systemau ar gyfer cofnodi presenoldeb y staff yn glir. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/02/2023